



Past Siwgr

Past siwgr y gellir ei ddefnyddio i wneud modelau addurnedig a bwytadwy.

Mae eisin a brynwyd mewn siop yn berffaith i'w ddefnyddio ond os ydych chi am geisio gwneud o eich hun dilynwch y cyfarwyddiadau isod.

Cynhwysion:

2.5ml Gwm tragacanth

5ml Sudd lemwn wedi hidlo

10ml o ddŵr rhosod

350-450g Siwgr eisin

Hanner gwyn wy

- ◇ Mewn powlen mwydwch y gwm tragacanth dros nos yn y sudd lemwn a'r dŵr rhosod.
- ◇ Cymysgwch i mewn y gwyn wy wedi'i guro'n ysgafn, yna hidlwch y siwgr eisin i mewn i'r bowlen ychydig ar y tro nes ei fod yn past.
- ◇ Trowch y gymysgedd ar arwyneb gwaith gyda thaennelliad o siwgr eisin a'i dylino nes ei fod yn hollol esmwyth.
- ◇ Nawr rydych chi'n barod i fodelu a siapio'ch past siwgr i fod yn unrhyw beth rydych chi ei eisiau.